# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Ionawr 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod yr arian gan y Trysorlys yn dwyn budd i chwaraeon yng Nghymru. (WAQ49681)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd fydd yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch gofod arddangos celfyddyd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a arweinir gan yr Adran Ddiwylliant, wedi ei chwblhau, a phryd fydd y Gweinidog yn cyhoeddi canlyniadau'r astudiaeth honno. (WAQ49685)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu sut mae ei weinyddiaeth yn annog pobl ifanc yng Nghymru i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. (WAQ49682)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgelu a yw wedi cael unrhyw ohebiaeth ynghylch y gwasanaeth gwael ar y llinell rhwng Aberystwyth i'r Amwythig, o ran ei anwadalwch, ei orboblogrwydd a'r cyfleusterau toiled, ac a wnaiff ef gyhoeddi gohebiaeth o'r fath. (WAQ49684)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r gwasanaeth bws Arriva X41 rhwng Aberystywth ac Abertawe yn derbyn unrhyw nawdd gan Lywodraeth y Cynulliad. (WAQ49690)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu eu cymryd ar ran cyn weithwyr ASW yn ymateb i benderfyniad yr Uchel Lys ynghylch pensiynau ar 21 Chwefror 2007. (WAQ49692)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith ar Reilffordd Glyn Ebwy. (WAQ49693)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr y goleuadau traffig wrth gylchfan Abercynon ar yr A470. (WAQ49697)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull cymeradwy Llywodraeth Cynulliad Cymru o ganfod dyslecsia mewn plant. (WAQ49698) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith erydu'r arfordir ar Barc Arfordirol y Mileniwm. (WAQ49689)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Trish Law (Blaenau Gwent):** Pa gyngor y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei gynnig pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio 'polisi dim cymorth' dieithriad yn achos grantiau neu fenthyciadau neu'r ddau. (WAQ49700)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau orthodonteg yng Nghaerdydd. (WAQ49683)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer Clinigau Iechyd Rhywiol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru. (WAQ49686)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae ef wedi ei wneud gerbron ei gyfeillion yn San Steffan i eithrio'r Mudiad Hosbis yng Nghymru o reolau sy'n eu gorfodi i dalu symiau helaeth i arian i redeg eu loteri codi arian. (WAQ49687)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi'r ymgyrch bwyta'n iach ymhlith plant, 'Food Dudes'. (WAQ49688)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer y dyfodol i ddarparu gwasanaethau yn y Ganolfan Gofal y Fron a'r Uned Endosgopi Arhosiad Byr yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. (WAQ49691)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r gost ragamcanedig o osod pibelli newydd yn lle'r hen rai copr yn Ysbyty Gwynedd, ac o ba ffynhonnell y canfyddir cyllid ar gyfer hyn. (WAQ49694)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nad yw arian ar gyfer prosiect ysbyty Alltwen wedi ei ddargyfeirio oddi wrth ysbytai cymunedol eraill

yng Ngwynedd. (WAQ49695)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog yn gallu cadarnhau cost amcangyfrifiedig gwreiddiol prosiect Ysbyty Alltwen, a rhoi adroddiad cynnydd ynghylch cynnydd pellach i'r amcangyfrif hwn. (WAQ49696)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisïau ar gyfer cefnogi'r sector gwirfoddol. (WAQ49680)

**Trish Law (Blaenau Gwent):** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi penderfyniad ynghylch cais a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar Hydref 6, 2006 am Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer datblygiad Tai â Chefnogaeth Gofal-Ychwanegol. (WAQ49699)